



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Gofal Preswyl Carlton House

**Cartref Gofal Preswyl Carlton House
Llan-non
SY23 5HZ**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/05/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cartref Gofal Preswyl Carlton House

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	CARTREF GOFAL PRESWYL CARLTON HOUSE
Lleuedd cofrestredig	16
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	25 Ebrill 2022
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r bobl yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gânt. Caiff yr unigolion eu cefnogi gan dîm o staff cyfeillgar a gofalgarg, y maent wedi meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â nhw. Dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym *"we are one big family here"*. Caiff y gwasanaeth ei redeg yn dda gan y rheolwyr, a dywedodd y bobl a'r staff wrthym eu bod yn gwerthfawrogi eu cymorth a'u harweiniad.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ac yn gyfforddus, gydag ystafelloedd cymunedol a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda er mwyn i'r bobl allu ymlacio a rhyngweithio â'i gilydd. Gall y bobl gyfarfod â'u hymwelwyr mewn ardal dawel a phreifat o'r cartref, yn eu hystafelloedd neu yn y gerddi.

Mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn adnabod yr Unigolyn Cyfrifol yn dda ac yn ei barchu. Mae'r wybodaeth o'r ymweliadau Rheoliad 73 a'r archwiliadau mewnol yn llywio ei adolygiad o ansawdd y gofal a gynhelir bob chwe mis.

Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth wedi'u teilwra i'r unigolyn. Mae'r rheolwyr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Mae'r rhyngweithio rhwng y bobl a'r tîm o staff yn gyfeillgar ac yn hamddenol. Caiff y bobl eu parchu, a dywedodd un o'r gweithwyr gofal wrthym *"I'm not coming into a place of work, I'm coming into their (peoples) home"*. Caiff yr unigolion eu cefnogi i wneud y pethau sydd o bwys iddynt, fel cyfarfod ag aelodau o'u teulu, cymdeithasu â'i gilydd a threulio amser ar eu pen eu hunain. Mae'r cynrychiolwyr yn gadarnhaol am y gofal a'r cymorth; dywedodd un person, *"It's wonderful, it's a home from home environment"*. Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n cynnig 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, a gallant gyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg fel y mynnant. Dywedodd aelod o deulu wrthym, *"There are a lot of Welsh speakers at the home, which is so important for people"*.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu gan fod prosesau recriwtio a hyfforddiant yn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau sefydlu a datblygiad parhaus ac yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac maent yn deall eu cyfrifoldebau o ran codi pryderon yn llawn. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud hynny, ac mae ganddynt hyder yn y rheolwyr.

Mae'r adeilad yn gartrefol ac mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd eu hunain fel y mynnant. Mae'r ardaloedd cymunedol yn gyfforddus, yn olau ac yn fawr. Mae'r bobl yn defnyddio'r gwahanol ardaloedd sydd ar gael iddynt i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau, er enghraifft, sgwrsio â'i gilydd, gwyllo'r teledu, paratoi bwyd a darllen llyfrau neu bapurau newydd. Mae'r bobl yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain a gallant wneud y pethau sydd o bwys iddynt, fel treulio amser yn y cartref neu yn y gymuned gyda'u teuluoedd.

Mae gan y bobl lais ac maent yn cyfrannu at y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg gan fod yr Unigolyn Cyfrifol yn eu cynnwys yn y broses sicrhau ansawdd. Mae'r prosesau llywodraethu yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth o arolygon ac archwiliadau. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn nodi meysydd i'w gwella ar ôl ymgynghori â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth a gânt. Gwelsom lawer o ryngweithio cadarnhaol a chyfeillgar rhwng y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref. Mae'r gweithwyr gofal yn trin y bobl fel unigolion ac yn eu cefnogi yn unol â'u hanghenion a'u dewisiadau. Dywedodd y bobl wrthym *"They are all wonderful here"* a *"This place is great, we are very lucky"*. Mae'r gweithwyr gofal yn cymryd amser i ddod i adnabod y bobl ac maent yn eu parchu fel unigolion. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *"the residents are wonderful and we have a great bond"*. Mae'r cynrychiolwyr hefyd yn gadarnhaol iawn am y gofal a'r cymorth a dywedodd un ohonynt wrthym *"The staff are lovely, you can talk to them about anything and any concerns, they are amazing"*

Caiff y bobl, eu cynrychiolwyr, y gweithwyr gofal a gweithwyr proffesiynol eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a chynnal y cynlluniau personol. Mae'r rheolwyr yn adolygu'r cynlluniau bob mis er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol ac maent yn bwriadu cofnodi adborth mwy manwl gan y bobl fel rhan o'r broses. Mae'r ddogfennaeth yn dangos tystiolaeth dda bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys. Mae'r nodiadau dyddiol yn llawn gwybodaeth ac yn cofnodi'r gofal a'r cymorth a roddwyd, yr hyn y mae'r bobl wedi ei fwyta, eu gweithgareddau a disgrifiad o'r diwrnod o safbwynt y person.

Mae gan y gwasanaeth raglen weithgareddau, ond mae'n well gan y bobl dreulio eu hamser yn gwneud pethau llai ffurfiol, fel darllen papurau newydd a llyfrau, gwyllo'r teledu a rhyngweithio â'i gilydd. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y bobl wrthi'n fodlon yn paratoi llyisiau ar gyfer cinio. Dywedwyd wrthym fod y rhan fwyaf o'r bobl yn mwynhau treulio amser gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau yn y gwasanaeth neu yn y gymuned leol. Dywedodd unigolyn wrthym *"my daughter lives away but I want to stay here because I'll never get the same service anywhere else"*.

Caiff meddyginiaeth ei rhoi'n briodol ac mae gweithiwr gofal dynodedig yn gyfrifol am archwilio ac archebu meddyginiaeth. Mae gan y darparwr bolisiau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli'r risg o heintiau.

Mae lefelau staffio digonol ar waith er mwyn diwallu anghenion y bobl a gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cadarnhaol a phwylllog yn ystod yr arolygiad.

Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn olau ac yn ffres a chaiff ei gynnal a'i gadw'n dda gan dîm cadw tŷ a thîm cynnal a chadw dynodedig. Mae'r bobl yn mwynhau treulio amser yn yr ardaloedd cymunedol yn sgwrsio â'i gilydd a gyda'r tîm o staff. Gall yr unigolion bersonoli eu hystafelloedd â'u lluniau a'u dodrefn eu hunain. Mae'r bobl yn mwynhau treulio amser yn eu hystafelloedd, ac yn gwerthfawrogi'r golygfeydd o'r ardal gyfagos. Mae'r bobl yn rhoi lluniau ohonynt eu hunain ar ddrysau eu hystafelloedd i'w helpu i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch y cartref. Mae'r gerddi yn hygyrch ac mae'r bobl yn mwynhau eu defnyddio yn ystod y misoedd cynhesach.

Mae gan y darparwr raglen ar gyfer gwaith uwchraddio wedi'i gynllunio a gwaith uwchraddio ymatebol er mwyn sicrhau y caiff décor y cartref ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn creu awyrgylch croesawgar i'r bobl. Cawsom wybod fod camau yn cael eu cymryd yn gyflym mewn ymateb i unrhyw broblemau a bod gwaith atgyweirio yn cael ei gwblhau'n brydlon.

Cwblheir archwiliadau lechyd a Diogelwch rheolaidd o'r eiddo. Mae profion y cyfarpar diogelwch tân yn gyfredol ac mae'r darparwr yn rhoi camau gweithredu ar waith yn dilyn archwiliad diogelwch tân er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau tân.

Rhoddwyd sgôr hylendid bwyd o 5 i'r gegin ac mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o brydau cartref wedi'u paratoi'n ffres. Mae'r bobl yn mwynhau profiad cymdeithasol wrth fwyta yng nghwmni ei gilydd a dywedodd unigolyn wrthym "*The food is fantastic*".

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn rhan o redeg y cartref, ac mae'r bobl a'r staff yn ei ddisgrifio fel person hawdd mynd ato a chefnogol. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *"[RI] is great and we see him regularly"*. Caiff ymweliadau Rheoliad 73 eu cwblhau bob tri mis, ac mae'r adroddiad dilynol ar yr ymweliad yn dangos yr ymgynghorir â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff. Mae'r rheolwyr wrthi'n cwblhau'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis a gwelsom adborth cadarnhaol yn yr arolygon.

Mae'r rheolwyr yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a gwelsom lawer o ryngweithio cadarnhaol rhyngddynt â'r bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn eu disgrifio fel unigolion sy'n hawdd mynd atynt a dywedodd un ohonynt wrthym *"The door is always open"*. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwyr, a dywedodd un *"I feel appreciated and have a good work/life balance"*. Dywedodd y cynrychiolwyr wrthym fod y rheolwyr yn barod i helpu, ei bod yn hawdd siarad â nhw ac yn hawdd mynd atynt, gydag un yn nodi *"Any problems we can just ring them (managers) at any time and they support us"*.

Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn cael sesiynau goruchwyllo rheolaidd bob deufis a'u bod yn trafod pwnc gwahanol yn ystod pob sesiwn er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf. Dywedodd un gweithiwr wrthym *"We have supervision every two months, they (Managers) are easy to talk to and will always help and listen"*. Drwy drafodaethau â'r staff, gwelwyd bod ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion diogelu. Mae gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da, ac mae gan y staff ddealltwriaeth ddigonol o bolisiâu allweddol.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, gwirio'r hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae staff newydd yn cael sesiynau sefydlu cynhwysfawr a hyfforddiant parhaus gorfodol, ac sy'n benodol i'r person, er mwyn diwallu anghenion y bobl. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *"I had a wonderful induction and training"*. Caiff y staff eu cefnogi gan y rheolwyr i gwblhau 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' ac i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae digon o staff yn gweithio i ddiwallu anghenion y bobl. Mae llawer o'r gweithwyr gofal wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Maent wedi meithrin cydberthnasau da â'r bobl ac yn deall eu hamgylchiadau a'u hanghenion unigol. Dywedodd cynrychiolydd wrthym *"We were so lucky we got a place for mum at Carlton House, they have been amazing"*.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Dyddiad Cyhoeddi 13/06/2023